SWYDDOGOL

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu • Police DYFED-POWYS

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **MS Teams** |
| **Dyddiad:** | **18 Mehefin 2026** |
| **Amser:** | **10am–12pm** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | • Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn<br>• Prif Gwnstabl, Ifan Charles<br>• Prif Weithredwr Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Prif Swyddog Cyllid SCHTh, Nicola Davies<br>• Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, Linda Williams |
| **Hefyd yn bresennol:** | • Swyddog Staff, Ditectif Arolygydd Samantha Gregory (SG)<br>• Swyddog Cymorth Gweithredol SCHTh, Sophie Morgan (SM) |
| **Ymddiheuriadau:** | • Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyfarwyddwr Cyllid.  Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Y diweddaraf am gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| PB 125 | Yr heddlu i ddarparu amserlen ar gyfer esblygu prosesau. | Darparwyd memo gan yr heddlu.<br><br>Trefnwyd cyfarfod diweddaru gyda'r Uwch-swyddog Cyfrifol. |
| PB 126 | Y Prif Gwnstabl i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dilyn cyfarfod â Chyngor Sir Penfro. | Gohiriwyd cyfarfod â Chyngor Sir Benfro oherwydd newid arweinydd y cyngor. |
| PB 127 | Uwch-arolygydd Uned Reoli Sylfaenol Sir Benfro i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod â'r Athro Uzo ynghylch y digwyddiad yn Ninbych-y-pysgod. | Wedi’i gwblhau |

## 3. Pwnc ffocws:

a) **Adroddiad gwerthuso – Model Goruchwylio Powys**

Trafododd a nododd y Bwrdd yr adroddiad gwerthuso ar Fodel Goruchwylio Powys. Diben yr adroddiad gwerthuso oedd adolygu llwyddiant y prosiect yn erbyn ei amcanion, nodi unrhyw wersi o hyn, a chymhwyso'r rhain i brosiectau yn y dyfodol. Mae'r cyflwyniad yn manylu ar y rhesymau gwreiddiol a nodwyd, gan greu'r angen am y newidiadau hyn.

Mae Powys fel rhanbarth yn cwmpasu'r ardal fwyaf yn ardal yr heddlu a chyn cyflwyno Model Goruchwylio Powys roedd y prosiect wedi'i rannu'n dair adran, sef Sir Frycheiniog, Sir Faesyfed a Sir Drefaldwyn.

Roedd y cynnig a gyflwynwyd yn golygu cael gwared ar y rhingylliaid craidd o Sir Faesyfed i atgyfnerthu:

- Y model goruchwylio yn y sir
- Cydbwyso’r lefel o oruchwylio troseddau
- Gwella gwydnwch o fewn dalfeydd Powys

Ym mis Hydref 2024, cychwynnodd Powys y prosiect peilot a symudodd o dair i ddwy adran, gan ddod, i bob pwrpas, yn Ogledd/De. Yn ystod y peilot, unwyd goruchwyliaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed gyda ‘Rhingylliaid y De’ bellach yn gyfrifol am oruchwylio troseddau/tîm ar gyfer y ddwy adran.

Roedd adlinio’r rhingylliaid yn caniatáu i dri rhingyll symud i dair cylchres wythnosol, gan ddod yn rhingylliaid gwydnwch i bob pwrpas.

Er bod y cynllun peilot wedi'i gymeradwyo ar lefel prif swyddog, roedd y tu allan i fodel gweithredu'r heddlu (FOM) a llywodraethiant uwch-noddwyr (SSG). O ganlyniad, mae'r prosiect yn cael ei redeg yn uniongyrchol gan yr Uned Reoli Sylfaenol.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i ddarparu papur sicrwydd ynghylch recriwtio ym Mhowys – i lunio cynllun plismona sy’n canolbwyntio ar broblem i fynd i'r afael â'r her o ddenu ymgeiswyr swyddogion lleol dan hyfforddiant yng ngogledd Powys, yn enwedig Sir Drefaldwyn.**

### b) Adroddiad gwerthuso – cynllun peilot i ddyrannu gliniaduron yng nghanol a de Ceredigion

Trafododd a nododd y Bwrdd yr adroddiad gwerthuso o’r cynllun peilot i ddyrannu gliniaduron yng nghanol a de Ceredigion.

Prif amcan y peilot oedd profi a ellid gwireddu effeithlonrwydd drwy ddarparu’r modd i swyddogion ymateb a swyddogion timau plismona ac atal bro aros yn weladwy yn eu cymunedau am hwy, yn hytrach na gorfod dychwelyd i'r orsaf pan oedd angen cyfrifiadur i gwblhau tasg. Mesurwyd hyn drwy ddeall sawl galwad uniongyrchol a galwad â blaenoriaeth oedd lle cyflawnwyd yr cytundeb lefel gwasanaeth. Yn y ddau achos, roedd canran yr ymgysylltiad cadarnhaol yn uwch na'r flwyddyn flaenorol a gellid priodoli hyn i'r ffaith bod gliniaduron, o leiaf

yn rhannol, yn ffactor cyfrannol gan nad oedd unrhyw fentrau gwella eraill ar waith ar yr un pryd.

Cyrhaeddodd presenoldeb mewn galwadau blaenoriaeth eu cytundeb lefel gwasanaeth yn ystod y rhaglen beilot, er bod dau swyddog yn llai ar gyfer ymdrin â’r galwadau.  Mae taliadau goramser wedi lleihau'n sylweddol yn ystod cyfnod y rhaglen beilot, gan leihau'r swm a werir hyd yn oed o ystyried gofynion gweithredol ychwanegol.

Mae swyddogion grŵp peilot yn nodi bod cael mynediad at liniadur yn amhrisiadwy, ac mae dadansoddiad yn dangos newid cadarnhaol yn llesiant swyddogion. Mae hyn yn dangos bod y cynllun peilot wedi cyflawni ei amcanion ac wedi llwyddo i gynhyrchu effeithlonrwydd wrth fod mor weladwy â phosibl yn y gymuned trwy ddosbarthu gliniaduron.

**c) Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau pobl a datblygu sefydliadol**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a Sefydliadol yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd.

O ran yr Adran Iechyd Galwedigaethol, mae fideos hyfforddi a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer system rheoli cleifion G2 bellach yn cael eu defnyddio ac maent wedi profi'n amhrisiadwy oherwydd yr angen parhaus i gyflogi ymgynghorwyr iechyd galwedigaethol a chynghorwyr meddygol yr heddlu ar gontract ac i hyfforddi staff gweinyddol newydd a phresennol. Mae gweithgarwch recriwtio’n mynd rhagddo ar gyfer Dirprwy Reolwr / Uwch-gynorthwyydd Iechyd Galwedigaethol a dau gynorthwyydd iechyd galwedigaethol i gryfhau olyniaeth a gwydnwch y tîm a lleihau’r ddibyniaeth barhaus ar adnoddau contractwyr wrth gefn.

Nid yw'r heddlu wedi gallu cyflogi unigolyn ar gyfer rôl y nyrs sgrinio, felly maent yn symud i fodel sy'n defnyddio rôl technegydd iechyd galwedigaethol yn llawn amser ac yn ychwanegu asesiadau ergonomig (yn lle defnyddio gwasanaethau WorkRite), tynnu gwaed (cymryd profion gwaed) a brechiadau at gylch gwaith y rôl yn unol â hynny. Mae'r dyletswyddau ychwanegol hyn o fewn cwmpas ymarfer y technegydd iechyd galwedigaethol a nodir gan y Coleg Plismona (CoP).  Unwaith y byddant ar waith, bydd clinigau ategol yn cael eu treialu yng ngogledd Powys ar gyfer archwiliadau meddygol gwyliadwriaeth iechyd / ffitrwydd i weithio. Bydd hyn yn lleihau'r amser y mae swyddogion yn cael eu tynnu o ddyletswyddau rheng flaen i fynychu'r pencadlys. Mae rôl prentis gweinyddol hefyd wedi'i chymeradwyo ar gyfer iechyd galwedigaethol i helpu gyda gwydnwch.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i estyn allan a rhwydweithio ag arweinydd iechyd galwedigaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ganfod sut maen nhw'n mynd i'r afael â'r prinder o glinigwyr iechyd galwedigaethol yn y DU ac a oes unrhyw gyfleoedd i gydweithio.**

Mae'r holl sgrinio seicolegol ar gyfer rolau risg uchel yn cael ei wneud ar hyn o bryd trwy G2 gan gwnselwyr mewnol ar sail fesul mis wedi'i threfnu. Mae fersiwn y Coleg Plismona ei hun o "PHIT" ar fin cael ei lansio. Mae'r offeryn sgrinio hwn yn benodol ar gyfer sgrinio seicolegol, gan gymryd lle'r contract blaenorol gyda'r darparwr allanol Noreen Tehrani. Mae Heddlu Dyfed–Powys wedi bod yn rhan o'r astudiaeth beilot ar gyfer y system newydd hon. Ar ôl iddo gael ei lansio'n genedlaethol, bydd Heddlu Dyfed–Powys yn ei ddefnyddio ar gyfer pob swyddog ymateb. Byddwn yn parhau i sgrinio pob rôl risg uchel arall drwy G2 gan fod hyn yn gweithio'n dda. Trafodwyd hyn â'r Coleg Plismona, a gytunodd â'r fformat hwn.

Mae cyflwyniadau codi ymwybyddiaeth o feirysau a gludir yn y gwaed (BBV) a straen yn cael eu recordio fel eu bod ar gael ar gyfer dysgu a datblygu ar gyfer hyfforddi carfanau newydd o fyfyrwyr. Bydd recordiadau hefyd ar gael ar y fewnrwyd a byddant yn cael eu darparu i adrannau/timau penodol os oes angen. Mae hyn yn caniatáu i'r tîm iechyd galwedigaethol barhau â chlinigau ac ymweliadau gorsaf dyddiol eraill.

Ymwelodd y Coleg Plismona â'r pencadlys ym mis Mai y mis diwethaf a threuliodd ddau ddiwrnod gyda'r tîm iechyd galwedigaethol, gan gyfarfod ag adnoddau dynol hefyd. Yr adborth a ddaeth i law oedd eu bod yn fodlon iawn ar fodel cyflawni iechyd galwedigaethol yr heddlu ac wedi argymell eu bod yn mynd ar drywydd achrediad Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Effeithiol a Diogel o Ansawdd (SEQOHS). Heddlu Dyfed–Powys fyddai'r heddlu cyntaf yng Nghymru i gael yr achrediad hwn a dim ond y trydydd heddlu yn y DU. Mae'r achrediad hwn yn cysylltu â'r safonau iechyd galwedigaethol yng Nghanllawiau Blaenoriaethu'r Gweithlu.

Trafododd y Bwrdd y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael ar draws yr heddlu.

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gwblhau gwerthusiad ac adolygiad o'r rhaglen hyfforddi rheoli newid.**

**Cam gweithredu: Yr heddlu i archwilio buddion ailgyflwyno prosiect Llywio.**

## 4. Cwestiynau i'r Prif Gwnstabl

**a) A allai Heddlu Dyfed–Powys roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y ffigurau isod ar gyfer cario nalocson?**

- **Nifer y swyddogion heddlu ac aelodau staff yr heddlu sydd wedi'u hyfforddi i gario a rhoi nalocson.**

- **Nifer y swyddogion heddlu sydd wedi cytuno i gario nalocson ac sy'n ei gario o ddydd i ddydd.**

- **Nifer y cerbydau sydd wedi'u cyfarparu â nalocson, naill ai yn ogystal â chario gan swyddogion neu staff, neu yn lle ei gario.**

- **Cyfanswm nifer y gweinyddiaethau nalocson.**

- **A yw Heddlu Dyfed–Powys wedi profi unrhyw heriau neu rwystrau yn ymwneud â sicrhau bod rhagor o swyddogion yn cludo nalocson?**

- **A yw Dyfed–Powys yn parhau i hyrwyddo cludo nalocson ymhlith swyddogion a staff?**

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod pob swyddog heddlu wedi'i hyfforddi i gario chwistrell nalocson yn ystod hyfforddiant cymorth cyntaf blynyddol y gwasanaethau brys yn y gwaith. Mae pob recriwt newydd hefyd yn cael yr hyfforddiant a'r opsiwn i'w gario. Maent yn cydsynio i gario a gallant ddewis peidio.

Mae cyflenwadau o nalocson ar gael yn y ddalfa ac mae'r heddlu yn y broses o ailgyflenwi ein holl becynnau nalocson oherwydd y dyddiad dod i ben ym mis Ebrill. Wrth wneud hyn, mae'r heddlu wedi ychwanegu codau QR at y blwch nalocson i gynorthwyo gyda'r gwaith o gofnodi a monitro. Mae nalocson ar gael ym mhob un o'r pecynnau cymorth cyntaf ym mhob cerbyd heddlu. Dyma'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y rheini sy'n cario nalocson:

- Swyddogion heddlu – 513
- Staff yr heddlu – 138

Cyfanswm y gweinyddiaethau hysbys o nalocson (o'r cychwyn): 13

Mae'r byrddau iechyd lleol yn ariannu pryniant chwistrelliadau nalocson ar gyfer Heddlu Dyfed–Powys. Fodd bynnag, yr unig rwystr eleni fu cyllid. Llwyddodd yr heddlu gael 100 chwistrelliad yn unig gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac nid yw hyn yn cwmpasu pawb sy'n cario nalocson ym Mhowys ar hyn o bryd. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos drwy drefniadau llywodraethu presennol megis Byrddau Cynllunio Ardal.

**b) Beth oedd amcanion digwyddiad manwerthu Heddlu Dyfed–Powys ac a gyflawnwyd y rhain drwy gydol y broses?**

- **Sut oedd ymgysylltu â phartneriaid yn ystod y digwyddiad ac a oedd cynrychiolaeth briodol ar y diwrnod?**
- **Pa gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ac a fydd Heddlu Dyfed–Powys yn bwrw ymlaen ag unrhyw rai ohonynt?**

Rhoddodd y Prif Gwnstabl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r bwrdd. Cynhaliwyd y digwyddiad troseddau manwerthu ar-lein ar 14 Mai 2026. Roedd rhyw 30 o bobl wedi cymryd rhan, yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Cychwynnodd y Prif Arolygydd arweiniol y cyflwyniad, gan amlinellu'r nodau, sef gwella gweithgarwch ataliol gyda manwerthwyr a gwella cydberthnasau â'r heddlu lleol.

Cafwyd cyflwyniadau gan yr heddlu, Auror, y Ganolfan Seiberwydnwch a Tesco. Roedd yn hanfodol bod Tesco yn rhan o'r broses oherwydd bod gan bob uned reoli sylfaenol gynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem ar hyn o bryd sy'n ymwneud â siop Tesco. Cymerodd bawb a oedd yn bresennol ran yn y sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd y digwyddiad.

**c) Yn dilyn yr ymateb a ddarparwyd gan y Prif Gwnstabl ym mis Mawrth 2025 ynghylch adroddiad HMICFRS – Ymchwiliadau i Droseddau: arolygiad i ba mor effeithiol y mae'r heddlu'n ymchwilio i droseddau, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a wnaed, ac yn benodol:**

- **Prosiect CRAFT**
- **Y broses adnabod wynebau ôl-weithredol Niche arfaethedig**
- **Y 'rheol terfyn troseddu' a'i heffaith ar lwythi gwaith swyddogion**
- **Yr hyfforddiant a nodir yn yr argymhellion**

Oherwydd bod technoleg newydd wedi'i rhoi ar waith yn y pwynt cyswllt cychwynnol sy'n ceisio cynorthwyo swyddogion/staff yn y broses o gofnodi troseddau gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial a thrwy awtomeiddio, mae cyfle i newid cyfeiriad yr heddlu yn sylfaenol o ran cofnodi troseddau gan y bydd y dechnoleg newydd hon yn caniatáu i'r heddlu gofnodi troseddau yn y pwynt cyswllt cyntaf. Mae'n debygol y bydd angen tîm cofnodi a therfynu troseddau o hyd, ond mae'n debygol y bydd y cyfrifoldebau'n newid.

Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo, ac mae'r heddlu ar hyn o bryd yn y cyfnod caffael. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd yr heddlu yn defnyddio'r dechnoleg newydd ym mis Chwefror 2027.

Mae tîm NICHE wedi datblygu chwiliad NICHE pwrpasol i nodi pob trosedd heb UNRHYW UNIGOLION A AMHEUIR A NODWYD a DELWEDD AR GAEL, y gellid ei asesu i fodloni'r trothwy ar gyfer gofyn am chwiliad mapio wynebau Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Fodd bynnag, er mwyn casglu'r set ddata angenrheidiol, mae angen gwneud diwygiadau i'r templed adolygu goruchwyliwr 28 diwrnod. Mae'r rhain wedi cael eu cytuno a'u derbyn ond maent yn aros i gael eu gweithredu. Nodwyd bod problemau proses y mae angen eu hadolygu sy'n effeithio ar hyn o bryd ar ddangosfwrdd PowerBI ar gyfer cydymffurfedd ag adolygiadau goruchwylwyr. Byddai gorfodi cwblhad rhai elfennau'n hwyluso hyn.

Dosbarthwyd y gweithdrefnau Rheoli Llwythi Achosion Ymchwiliol a daethant ar gael ym mis Chwefror 2026. Maent yn darparu system goleuadau traffig o'r hyn sydd wedi'i werthuso i fod yn llwythi achosion ymchwiliol y gellir eu rheoli, yn dibynnu ar yr adran ymchwilio. Mae "golwg goruchwyliwr" PowerBI hefyd yn

gweithredu system goleuadau traffig sy'n cyd-fynd â niferoedd llwythi achosion PIP1 (ymateb a thimau plismona ac atal bro) fel y gall goruchwylwyr weld swyddogion sydd â llwythi achosion â statws Oren neu Goch ar unwaith a chymryd camau lliniaru fel y nodir yn y canllawiau sydd wedi'u hatodi.

Cyflwynwyd sleid mewn cyfarfodydd wythnosol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol yn dangos pob swyddog timau plismona ac atal bro gyda deg trosedd neu fwy i'w trafod rhwng comanderiaid y Prif Gwnstabl Cynorthwyol a'r Uned Reoli Sylfaenol.

Mae swyddogion dan hyfforddiant yn cael hyfforddiant penodol ynghylch paratoi ffeiliau achos. Darperir hyn gan hyfforddwyr achrededig a chefnogir hyn gan staff o'r Uned Dilyniant Achosion fel arbenigwyr pwnc. Maent hefyd yn cael hyfforddiant sy'n benodol i ofynion lleol (NICHE) i gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu gwybodaeth am ffeiliau. Mae'r hyfforddiant yn cyd-fynd â chwricwlwm y Coleg Plismona. Yn ogystal, mae swyddogion dan hyfforddiant yn cael senario hyfforddi "bywyd trosedd" wythnos o hyd, sy'n ychwanegol at ofynion y Coleg Plismona. Yn ystod yr wythnos hon, mae swyddogion dan hyfforddiant yn delio ag ymchwiliad trosedd efelychiadol o'r dechrau i'r diwedd gyda'r canlyniad yn dibynnu ar y camau gweithredu a'r penderfyniadau a wnânt. Caiff ansawdd eu tystiolaeth, eu trosglwyddiadau a'u cyfweliadau â phobl a amheuir eu profi mewn amgylchedd dysgu diogel yn ystod yr ymarfer hwn.

Mae diwrnodau hyfforddi pwrpasol ar gyfer swyddogion gweithredol wedi'u cynnwys yn eu rota. Mae cynnwys yr hyfforddiant / datblygiad proffesiynol parhaus gorfodol a ddarperir ar y dyddiau hyn yn cael ei benderfynu gan y Grŵp Blaenoriaeth Hyfforddiant, sy'n cynnwys 3 x Prif Uwch-arolygyddion, rheolwr dysgu a datblygu, a chydlynydd sgiliau'r heddlu. Yn ystod y Grŵp Blaenoriaethu Hyfforddiant, adolygir pob cynnyrch newydd gan y Coleg Plismona, newidiadau neu ganllawiau deddfwriaethol, neu geisiadau am hyfforddiant gan arweinwyr adrannol. Caiff hyfforddiant gorfodol ei flaenoriaethu yn seiliedig ar risg a gall gynnwys paratoi ffeiliau a sgiliau ymchwiliol.

## 5. I'w nodi

### a) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Gwnstabl

Darparwyd diweddariad gan y Prif Gwnstabl i'r Bwrdd yn manylu ar ddigwyddiadau a gweithrediadau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am waith plismona da.

### b) Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Rhoddodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ddiweddariad byr ar ei weithgareddau a'r gyfarfodydd a gynhaliwyd ers y Bwrdd Plismona diwethaf, gan gynnwys cynnal gweminar gwirfoddolwyr, diwrnod ymgysylltu â'r gymuned, a mynd i lansiad y Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio.

## c) Yr wybodaeth ddiweddaraf am gyllid

Darparwyd adroddiad cyllid i'r Bwrdd, yn darparu sefyllfa ariannol bron yn wirioneddol ar gyfer refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Y sefyllfa wirioneddol agos ar gyfer yr heddlu yw tanwariant o £1.885 miliwn ac, ar gyfer y Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu, tanwariant o £0.260 miliwn. Mae'n debygol y bydd y ffigurau'n newid gan fod yn rhaid i'r llyfrau aros ar agor tan i'r archwiliad gael ei gwblhau ddiwedd mis Medi 2026.

Adroddwyd ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn a thybiwyd y byddai rhai addasiadau a thanwariant wrth osod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2026/27. Mae'r sefyllfa gyffredinol o ran cronfeydd arian wrth gefn tua £2.8 miliwn yn well nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb, gyda £0.8 miliwn o hyn yn gysylltiedig â chyfalaf a £2.0 miliwn yn refeniw/cronfeydd (mae'r tanwariant wedi'i ymgorffori yn y sefyllfa cronfeydd arian wrth gefn).

O ran cyfalaf, gosododd yr heddlu gyllideb ddiwygiedig o £17.6 miliwn ar gyfer 2025/26 ym mis Tachwedd 2026. Roedd yr alldro gwirioneddol yn £15.2 miliwn, sef tanwariant o £2.3 miliwn.
Mae tanwariant yr heddlu yn £1.885 miliwn, sydd £98,000 yn llai na'r hyn a ragwelwyd yng Nghyfnod 10.

Er gwaethaf y sefyllfa ariannol gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn, rhagwelir y bydd y symudiad ar refeniw, cronfeydd cyfalaf a benthyca cyfalaf yn negatif iawn dros y pedair blynedd nesaf, gyda balans 2030 yn parhau i fod tua £64.4 miliwn, ac o'r swm hwnnw, bydd tua £34.4 miliwm yn weddill y ddyled allanol ar hyn o bryd. Cynyddwyd benthyca allanol i £25 miliwn yn 2025/26.

Mae'r amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr iawn mewn perthynas â diwygio'r heddlu, setliadau, cyllid fformiwla a dyfarniadau cyflog ar gyfer 2026/27 a'r blynyddoedd i ddod. Dilynodd trafodaeth mewn perthynas â manylion y papur, gan gynnwys y sefyllfa gyda chyflog swyddogion heddlu, costau cyflog staff yr heddlu a gwariant goramser.

Ystyriwyd hefyd y manylion nad ydynt yn ymwneud â chyflogau a rhywfaint o waith cyfalaf sylweddol a gwaith prosiect arall, gan gynnwys cynlluniau cynaliadwyedd sydd wedi cyfrannu at danwariant o £0.1 miliwn mewn costau eiddo.

Bydd y tanwariant cyffredinol ar gyfer y flwyddyn yn cynorthwyo gyda phwysau ariannu ar gyfer 2026/27.

Mae'r broses o gau cyfrifon yn dal i fynd rhagddi, a'r bwriad yw cwblhau'r cyfrifon drafft wedi'u llofnodi yn unol â gofynion statudol erbyn diwedd mis Mehefin 2026 yn barod i'w cyflwyno i'w harchwilio. Gyda'r broses yn dal i fynd rhagddi, a heb ddisgwyl i'r gwaith gan Archwilio Cymru gael ei gwblhau tan fis Medi 2026 fan bellaf, mae siawns y gallai fod angen diwygiadau pellach i'r sefyllfa ariannol hon.

Mae angen penderfyniadau ynghylch trin cronfeydd arian wrth gefn a balansau ar gyfer cyfalaf a refeniw nawr ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu sefyllfa sylfaenol ar gyfer trafodaeth bellach. Yn ogystal, byddai safbwynt clir ar drosglwyddo llithriad cyfalaf ar gyllidebau o fudd er mwyn hwyluso cyflawniad prydlon cyn yr amserlen gau.

Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd Plismona wneud y penderfyniadau canlynol:

- Cymeradwyo'r symudiad yn y cronfeydd arian wrth gefn a'r balans terfynol fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
- Gofynnir i'r Bwrdd Plismona gymeradwyo'r llithriant mewn cyllidebau cyfalaf fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i'w ychwanegu at y cyllidebau gwreiddiol ar gyfer 2026/27.
- Bod unrhyw newidiadau yn y sefyllfa refeniw a allai fod yn angenrheidiol oherwydd y broses gau barhaus yn cael eu hadlewyrchu yng ngweddill y gronfa arian wrth gefn ar gyfer lliniaru cyllidebau.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y symudiad yn y cronfeydd arian wrth gefn a'r balans terfynol fel yr amlinellir yn yr adroddiad cyllid.**

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y llithriant yn y cyllidebau cyfalaf fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad i'w ychwanegu at y cyllidebau gwreiddiol ar gyfer 2026/27.**

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y dylai unrhyw newidiadau yn y sefyllfa refeniw a allai fod yn angenrheidiol oherwydd y broses gau barhaus gael eu hadlewyrchu yng ngweddill y gronfa arian wrth gefn ar gyfer lliniaru cyllidebau.**

**Cam gweithredu: Yr heddlu i gwblhau gwerthusiad o'r Grŵp Prosiectau a Chyllid.**

## d) Yr wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Darparwyd papur diweddaru i'r Bwrdd gan y Rheolwr Gwybodaeth ynghylch y broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data.

Mae datblygiad y broses ar gyfer cynnal Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data gan ddefnyddio 'cynnyrch' Glannau Merswy wedi'i ohirio wrth adolygu'r broses hon fel rhan o'r adolygiad adrannol ehangach.  Mae'r heddlu mewn trafodaethau â Cydweithio Cymru ac mae disgwyl iddynt ymateb i'w hymgynghoriad ym mis Mehefin mewn perthynas â thempled Cymru gyfan ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Mae'r Uwch-reolwr Llywodraethiant a Newid wedi datblygu ffurflen awtomataidd ar gyfer y broses ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd.  Y nod yw darparu'r ffurflen fel templed amgen ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data i Cydweithio

Cymru, gyda'r bwriad bod y tîm TGCh yn datblygu'r ffurflen yn broses electronig ac yna rhannu hynny â heddluoedd eraill Cymru. Mae cynnydd gyda hyn yn dibynnu ar gefnogaeth Cydweithio Cymru, heddluoedd eraill Cymru a chymorth TGCh. Y nod hirach yw cysylltu'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth (IAR), y Cofnod o Weithgareddau Prosesu (ROPA) a'r rhaglen archwilio cydymffurfedd â'r broses ar gyfer cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data. Mae cais wedi'i gyflwyno i'r Adran TGCh drwy'r broses DIAG i ystyried defnyddio datrysiad IAR/ROPA Heddlu'r Met.

Mae’r gwaith o recriwtio Cynghorydd Diogelu Data dros dro i gynorthwyo yn y maes gwaith hwn wedi'i gwblhau ac ymunodd yr aelod staff â'r tîm ym mis Mehefin. Mae wedi dechrau adolygiad o ffolderi hŷn Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data i sefydlu pa gamau y mae eu hangen yn y dyfodol. Mae un Swyddog Rhannu Gwybodaeth (rhan amser) yn cynnal adolygiad o'r holl lwyth achosion agored cyn 2018 i sefydlu'r sefyllfa bresennol a chymryd camau gweithredu fel y bo angen.

Mae cyfarfodydd blaenoriaethu Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data gyda’r Dirprwy Brif Gwnstabl yn parhau i gael eu cynnal yn fisol.

Bydd yr heddlu yn destun archwiliad mewnol (TIAA) gan gydweithrediad diogelu data a GDPR (Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru) ddechrau mis Awst. Bydd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys:

Mae'r adolygiad yn asesu cydymffurfedd â phrif elfennau diogelu data a GDPR:

- Asesiadau o’r Effaith ar Breifatrwydd ac Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data
- Hawliau testunau data (e.e. hawl i gael eich anghofio)
- Dosbarthu data a rheoli asedau
- Diogelwch data a rheoli achosion o doriadau diogelwch data
- Llywodraethiant a chydsyniad
- Rheolyddion a phroseswyr data
- Adolygiad o brosesau awtomataidd a’r ffordd maen nhw wedi lleihau unrhyw ddyblygu (o bosibl Heddlu Dyfed–Powys yn unig)

### e) Yr wybodaeth ddiweddaraf am atal, ymyrraeth ac ymgysylltu

Cyflwynwyd papur diweddaru i’r Bwrdd ynghylch atal, ymyrraeth ac ymgysylltuyn ffrwd waith plant a phobl ifanc.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio ar gyfer rolau swyddogion atal ieuenctid yr heddlu a rolau swyddogion allgymorth addysg bellach.

### f) Adolygiad Prif Swyddogion o Bwyllgor Dethol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Dywedodd y Prif Gwnstabl fod yr heddlu yn fodlon derbyn yr holl argymhellion a ystyrir yn rhesymol ac yn gyraeddadwy. Bydd y rhain yn cael eu datblygu a'u holrhain drwy'r Grŵp Plant a Phobl Ifanc. Yna cynhelir goruchwyliaeth drwy adrodd i'r Bwrdd Gweithrediadau a Bwrdd Gweithredol yr heddlu, gan sicrhau llywodraethiant priodol a gwelededd y cynnydd a wnaed.

Ceir dadansoddiad manwl o'r amserlenni disgwyliedig ar gyfer pob cam gweithredu i gefnogi cynllunio ac atebolrwydd effeithiol.

Nododd y Prif Gwnstabl ei bod yn bwysig nodi bod cwblhau rhai argymhellion yn dibynnu ar rolau nad ydynt wedi'u llenwi eto. Mae swyddi'r prosiect atal ac ymyrraeth sy'n weddill yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac mae cyfarfod wedi'i drefnu â'r Arolygwr i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd.

| Cam gweithredu | Crynodeb o gamau gweithredu'r cyfarfod ar 18 Mehefin 2026 | I'w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| PB 128 | Yr heddlu i ddarparu papur sicrwydd ynghylch recriwtio ym Mhowys – i fabwysiadu cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblem i fynd i'r afael â'r her o ddenu ymgeiswyr swyddogion lleol dan hyfforddiant yng ngogledd Powys, yn enwedig Sir Drefaldwyn. | Yr heddlu |
| PB 129 | Yr heddlu i estyn allan a rhwydweithio ag arweinydd iechyd galwedigaethol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ganfod sut maen nhw'n mynd i'r afael â'r prinder o glinigwyr iechyd galwedigaethol yn y DU ac a oes unrhyw gyfleoedd i gydweithio. | Yr heddlu |
| PB 130 | Yr heddlu i gwblhau gwerthusiad o'r Grŵp Prosiectau a Chyllid. | Yr heddlu |
| PB 131 | Yr heddlu i gwblhau gwerthusiad ac adolygiad o'r rhaglen hyfforddi rheoli newid. | Yr heddlu |
| PB 132 | Yr heddlu i archwilio buddion ailgyflwyno prosiect Llywio. | Yr heddlu |

CAU